

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys Contents

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Gwella Gwasanaethau Cyhoeddus Enhancing Public Services

Q12 Nick Bourne: Will the First Minister provide an update on plans for enhancing public services in Wales? OAQ1736(FM)

C12 Nick Bourne: A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau i wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? OAQ1736(FM)

The First Minister (Rhodri Morgan): 'Delivering the Connections' continues to drive forward the changes in the development and delivery of public services. We recently announced awards totalling £3 million under the £9 million-worth 'Making the Connections' improvement fund, demonstrating the opportunities for public service bodies to work together to provide better services.

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Mae 'Cyflawni'r Cysylltiadau' yn parhau i hyrwyddo'r newidiadau o ran datblygu a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Cyhoeddwyd yn ddiweddar ddyfarniadau o gyfanswm o £3 miliwn o dan gronfa wella 'Cyflawni'r Cysylltiadau', gwerth £9 miliwn, sy'n dangos y cyfleoedd sydd ar gael i gyrff cyhoeddus weithio gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaethau gwell.

Digwyddiadau Chwaraeon o Bwys Major Sporting Events

Q13 Laura Anne Jones: Will the First Minister make a statement on how he is looking to secure major sporting events in Wales? OAQ1727(FM)

C13 Laura Anne Jones: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae'n bwriadu sicrhau digwyddiadau chwaraeon o bwys yng Nghymru? OAQ1727(FM)

The First Minister: The Welsh Assembly Government invests significantly in attracting major events to Wales. We are committed to establishing Wales as a premier events destination, building upon our impressive record of successfully hosting world-class sporting and cultural events.

Y Prif Weinidog: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn buddsoddi'n helaeth yn y gwaith o ddenu digwyddiadau o bwys i Gymru. Yr ydym wedi ymrwmo i sefydlu Cymru fel prif leoliad digwyddiadau, gan adeiladu ar ein cofnod nodedig o gynnal digwyddiadau chwaraeon a diwylliannol o'r radd flaenaf yn llwyddiannus.

Goblygiadau Ariannol Financial Implications

Q14 Glyn Davies: Will the First Minister make a statement about the financial implications for the NHS in Wales of Welsh patients travelling to England for treatment? OAQ1728(FM)

C14 Glyn Davies: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y goblygiadau ariannol i'r GIG yng Nghymru pan fydd cleifion o Gymru yn teithio i Loegr am driniaeth? OAQ1728(FM)

The First Minister: Welsh NHS commissioners (local health boards and Health Commission Wales) contract with approximately 80 English hospital providers, at a total annual cost of approximately £121 million.

Y Prif Weinidog: Mae gan gomisiynwyr y GIG yng Nghymru (byrddau iechyd lleol a Chomisiwn Iechyd Cymru) gcontract gyda thua 80 o ddarparwyr ysbytai yn Lloegr am gost flynyddol o tua £121 miliwn.

Cyllido Gwasanaethau Awtistiaeth Trydyddol The Funding of Tertiary Autism Services

C15 David Lloyd: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyllido gwasanaethau awtistiaeth trydyddol? OAQ1722(FM)

Q15 David Lloyd: Will the First Minister make a statement on the funding of tertiary autism services? OAQ1722(FM)

Y Prif Weinidog: The future of these services is a commissioning issue for local health boards in Wales, and it is for them to work with healthcare providers to determine future arrangements.

Y Prif Weinidog: Mae dyfodol y gwasanaethau hyn yn fater comisiynu i fyrddau iechyd lleol yng Nghymru, a'u cyfrifoldeb hwy yw gweithio gyda darparwyr gofal iechyd i bennu trefniadau ar gyfer y dyfodol.